



Cymdeithas y Cyfreithwyr  
The Law Society

## **Eisteddfod Genedlaethol Cymru Bro Morgannwg 2012**

Peter Watkin Jones, Eversheds

*Allforio - ehangu'n gorwelion*



## 1 Cyflwyniad Personol.

Anaml y byddaf yn cael fy nghyflwyno gan fy ngwas priodas. Mae'n f'adnabod – yn llawer rhy dda. Nid wyf mewn sefyllfa heddiw i honni pethau mawr, ar fy rhan fy hun, gan ei fod ef, ac eraill sydd yma'n bresennol yn gwybod y gwir amdanaf – fy niffygion, fy ffaelectedau oll.

Ond mae eraill yma sydd ddim yn f'adnabod o gwbl, ac yn tybio pam fy mod wedi derbyn yr anrhydedd o dderbyn gwahoddiad gan Gymdeithas y Cyfreithwyr i draddodi darlith heddiw. Am wn i, mi estynnwyd y gwahoddiad gan fod fy mhractis dipyn yn wahanol i'r mwyafrif o gyfreithwyr, gan ddelio gydag ymchwiliadau cyhoeddus o wahanol fathau sydd yn aml yn denu sylw'r wasg a'r cyhoedd.

Mi wnes fy erthyglau gyda ffyrn yng Nghaerdydd o'r enw Phillips & Buck, ffyrn gymharol fechan, ond anturus ac egniol iawn. Enw'r ffyrn honno erbyn hyn yw Eversheds, ffyrn sydd â 45 o swyddfeydd ledled y byd mewn 28 gwlad, yn cynnwys Llundain, Paris, Munich, yr Affrig, Asia, Tsieina ac India. Swyddfa Caerdydd yw un o'r mwyaf llewyrchus o'r holl 45 o swyddfeydd sydd gennym; mae prif weithredwr y busnes byd eang yn dod o Gaerdydd, ac yn byw yno, a Chadeirydd cyntaf y busnes yn trigo yn y fro hon, a'i deulu oll yn medru ar y Gymraeg. Mae tua 500 o bobl yn gweithio yn swyddfa Caerdydd; mae'r ffyrn yn un o brif gyflogwyr Caerdydd. Mae sawl ffyrn arall o gyfreithwyr yng Nghaerdydd y soniaf mwy amdanynt maes o law sydd hefyd yn gyflogwyr allweddol ac yn cyfrannu'n helaeth at economi Caerdydd a'r wlad. Mae cyfreithwyr masnachol Cymru yn cyfrannu'n sylweddol at economi Cymru.

Mi ddysgais fy nghreffft fel cyfreithiwr yn ymglyfreithio trwy weithredu dros Awdurdod Datblygu Cymru, ac amryw o awdurdodau lleol Cymreig, cyn i'r awdurdod hwnnw gael ei lyncu gan Lywodraeth Cymru. Fi oedd y partner yn fy ffyrn oedd yn gyfrifol am weinyddu'r cytundeb a gafwyd gan Eversheds i ymgymryd â gwaith Llywodraeth Cymru am ei thair blynedd gyntaf. Trwy hynny, mi ddatblygais fy nealltwriaeth o weithredu ac ymglyfreithio yn y sector cyhoeddus. Yn rhannol oherwydd fy mod yn siaradwr Cymraeg, mi roeddwn hefyd yn gweithredu dros HTV, ac amryw o gwmnïoedd eraill ym maes darlledu, trwy gynghori ynglŷn â chynnwys rhaglenni, ac ymdrin ag achosion enllib.

Felly pan ddaeth llythyr trwy'r post o San Steffan, yn holi a oedd gan y ffyrn awydd tendro ar gyfer cytundeb i redeg tîm o 35 o gyfreithwyr i gyflawni anghenion yr ymchwiliad Bloody Sunday yn Derry yng Ngogledd Iwerddon am gwta fis, teimlais fy mod yn meddu ar brofiad oedd yn ddilys. Daeth y gwahoddiad yn 1997 cyn i'r cynllun

heddwch gael ei arwyddo, pryd roedd lladd a gwrthdystiadau yn parhau. Roedd hwn yn fath o waith oedd yn gwbl newydd. Teimlais dipyn yn ddihyder yn cynnig fy hun yn arweinydd y tîm; roedd yna risg yn annatod yn natur y gwaith, a risg na fyddai'r ymchwiliad o dan lywyddiaeth yr Arglwydd Saville yn dderbyniol i gymuned Derry a risg diogelwch y 35 o gyfreithwyr dan fy ngofal.

Ond o ystyried , pwy yn well na Chymro i ddeall teimladau gwrth-Brydeinig – teimladau oedd yn deillio, mae'n debyg, o ganlyniad i adroddiad ymchwiliad yr Arglwydd Widgery yn 1972, ymchwiliad a ystyriwyd yn wyngalchiad gan y cenedlaetholwyr gwyddelig .

Erbyn hyn, yn 1997, roeddwn eisoes wedi gwneud gwaith sensitif ar ran HTV yn archwilio achosion o gam-drin plant mewn cartrefi ledled Cymru ar gyfer cyfres "Wales this Week" – cyfres a arweiniodd yn uniongyrchol at ymchwiliad cyhoeddus a gyflawnwyd gan Syr Ronald Waterhouse, ymchwiliad lle y gweithredais pro bono ar ran rhai o'r plant a gafodd eu cam-drin tua 15 mlynedd ynghynt. Roedd gen i felly rywffaint o ddealltwriaeth o ymchwiliadau o'r fath, ac wedi dysgu hyn yng Nghymru.

Tybiais y byddai ambell i dyst i gyflafan Bloody Sunday yn debyg o wfftio at y defnydd o'r Saesneg mewn cyfweiliadau lle y buasem yn cyfweld gyda'r bwriad o hel tystiolaeth. Roeddwn i mewn sefyllfa i gynnal cyfweiliadau dwyieithog – gofyn cwestiynau yn y Gymraeg, a derbyn atebion yn yr Aeleg.

Felly dyma fagu hyder, paratoi tendr, ceisio dwyn perswâd mewn cyfweiliad, a chael fy mhenodi ar gyfer y swydd ddadleuol hon am y mis dilynol. Saith mlynedd yn ddiweddarach, daeth ymchwiliad yr Arglwydd Saville, a fy ngwaith i a'm tîm i ben. Roedd dros 100 o fy nhîm wedi bod yn Derry, Lloegr, Ewrop a'r Unol Daleithiau yn hel tystiolaeth. Roedd trethdalwyr Prydain £13m yn dlotach o'r herwydd. Cyfaddefodd Martin McGuinness ei rôl fel arweinydd yr IRA am y tro cyntaf; cafwyd tystiolaeth am y tro cyntaf gan tua 50 o aelodau o'r IRA ynglŷn â'u safbwyntiau a'u dulliau o weithredu; cwestiynwyd dros 2000 o dystion eraill gan fy nhîm, yn cynnwys cyn-weinidogion, Prif Weinidog, cyn-filwyr , yr heddlu, a gweision sifil. A hyn oll yn cael ei lywio o swyddfa Caerdydd.

Oherwydd yr ymchwiliad hwn, cefais gyfle i gynnig am y gwaith o hel tystiolaeth dros ymchwiliad i weithredoedd Dr Shipman, a gyhuddwyd o ladd 15 o'i gleifion. Roedd rhagdybiaeth fod nifer llawer mwy wedi cael eu lladd ganddo. Wedi llwyddo yn y tendr, dyma agor swyddfa symudol mewn warws yn Hyde, gyda 25 o gyfreithwyr eraill o'r ffyrm, ar gyfer gwneud ymholiadau ac ymchwiliadau i geisio darganfod

patrymau gweithredu Dr Shipman a thystiolaeth a fyddai'n galluogi'r Fonesig Janet Smith, cadeirydd yr ymchwiliad, i ddod i gasgliad ynglŷn â'r nifer o bobl a laddwyd ganddo. Dau gant oedd y nifer a benodwyd erbyn diwedd yr ymchwiliad.

Beirniadwyd Cyngor Meddygol Prydain, y GMC, yn llym gan y Fonesig Janet am ei ddulliau gweithredu, ac yn sgil y gwaith yma, derbyniais wahoddiad gan y GMC i weithredu ar ei ran i ddiwygio ei systemau o ymchwilio i feddygon a ragdybiwyd yn beryg, neu yn ddrwg weithredwyr - gwaith a barhaodd am saith mlynedd, gyda 15 o gyfreithwyr yn y tîm, a'r gwaith cenedlaethol hwn eto yn cael ei lywio o Gaerdydd.

Wedi hyn, daeth ymchwiliad cyhoeddus arall, ac arwain tîm o 25 o gyfreithwyr, eto yng Ngogledd Iwerddon, ac yna yn Llundain, i ymchwilio ar ran y Barnwr Gadeirydd, i unrhyw ddrwg weithredu gan MI5, yr heddlu cudd, neu gyrff eraill llywodraethol, i farwolaeth y gyfreithwraig Rosemary Nelson, a laddwyd o ganlyniad i ffrwydriad car, wedi iddi lwyddo i amddiffyn amryw o bobl a ragdybiwyd o fod yn arweinwyr blaenllaw yr IRA yn ardal Lurgan a Chraigavon - dyma bedair blynedd bellach o waith oddi cartref.

Ond roedd y ddau apwyntiad nesaf dipyn yn nes at adref – gweithredu ar ran Awdurdod yr Heddlu Metropolitaidd a Swyddfa Maer Llundain yn yr ymchwiliad enwog hwnnw, ymchwiliad Leveson, sydd yn ymdrin â diffygion yn y gyfundrefn o reoleiddio'r wasg. Ond rôl fach oedd honna o gymharu â'r rôl yr ymgymerais â hi fel cyfreithiwr ymchwiliad ysbyty Mid Staffordshire lle rhagdybiwyd fod rhwng 400 a 1200 o gleifion wedi marw yn ddiangen o ganlyniad i ofal annigonol, oherwydd diffyg y systemau comisiynu a rheoleiddio. Bydd yr adroddiad ynglŷn â'r diffygion sylfaenol yng ngwasanaeth iechyd Lloegr yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref. Roedd 25 o gyfreithwyr yn ymwneud â'r gwaith, gan gynnwys 10 o Gaerdydd.

Felly dyna fi a fy mhreactis yn fras, ac ar wib!

## **2 "Bwlch Offa"**

Derbyniais ddau beth arall nodedig yr un pryd â'r gwahoddiad i'ch annerch heddiw. Yn gyntaf, adroddiad diddorol a wnaeth i mi ystyried pethau ehangach, a rhoi tipyn o fy mhrofiadau personol i bersbectif ehangach. Yr adroddiad a gomisiynwyd gan y Sefydliad Materion Cymreig ac a gynhyrchwyd gan Dr Eurfyl ap Gwilym ac Adam Price. Nid adroddiad politicaidd yw hwn – nid yw'n cynrychioli polisi Plaid Cymru, nac

unrhyw blaid arall. Does gen i ddim bwriad o wneud unrhyw sylwadau na phwyntiau gwleidyddol heddiw. Datgan barn bersonol yw fy mwriad – barn bersonol unigolyn sydd yn aelod o Gymdeithas y Cyfreithwyr. Nid economegydd mohonof; nid wyf mewn sefyllfa i gynnig critique ar sylwadau awduron yr adroddiad; ond mae ganddynt syniadau diddorol sydd, yn fy nhyb i, yn berthnasol i ni, fel aelodau Cymdeithas y Cyfreithwyr, ac fel cyfreithwyr sydd yn ceisio ffynnu mewn practis sydd wedi ei leoli yng Nghymru.

Neges yr adroddiad yw bod Cymru, ers canol y nawdegau, wedi dirywio yn sylweddol yn economaidd, a dirywio i'r fath raddau mai Cymru erbyn hyn sydd ar waelod y tabl economaidd o safbwynt ffyniant a chyfoeth. Mae bwlch, os nad agendor, wedi agor rhwng llwyddiant economaidd Cymru, a gweddill Prydain. Fe gynnigir yn yr adroddiad fod pob unigolyn yng Nghymru £1850 yn dlotach na'u cymheiriaid yn Lloegr – yr hyn a elwir yn yr adroddiad yn "Bwlch Offa". Cyfeirir at y sector gwasanaethau ariannol yn symud mwyfwy i Lundain, gan adael Cymru yn dlotach o'r herwydd. Awgrymir fod Cymru yn mewnfario llawer gormod, ac fe ddyfynnir yr economegydd enwog A. P. Thirwall yn awgrymu fod tyfiant hirdymor yn dibynnu ar allforio yn hytrach na mewnfario; Ydy'r egwyddor hon yr un mor ddilys wrth ystyried allforio talent yn ogystal â nwyddau? Mae'r adroddiad yn awgrymu fod ymgymryd â strategaeth i allforio cynnyrch Cymreig yn hollbwysig i unrhyw fusnes uchelgeisiol, beth bynnag y bo. Awgrymir fod angen i'r strategaeth honno fanteisio ar ein dealltwriaeth arbennig ni yng Nghymru o'r sector cyhoeddus, gan fod Cymru, ac wedi bod erioed, mor ddibynnol ar y sector allweddol o bwysig hwnnw. Cyfeirir at lwyddiant cwmni Statkraft, sydd yn perthyn i'r wladwriaeth Norwyaidd, a ddenodd fy sylw am resymau y dof nôl atynt yn y man.

### **3 Tirlun o'r Cleient Cymreig**

Yr ail beth a dderbyniais yr un pryd oedd canlyniadau ariannol fy ffyrn am y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ynghlwm â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn newydd. Amser llwm yw hwn bob blwyddyn i bob partner mewn unrhyw ffyrn gyfreithiol fawr. Mae'n debyg i'r teimlad y mae'r plentyn hwnnw'n ei gael wrth dynnu llun efo'r pensil hud, ac yna tynnu'r sgrin i lawr, y llun wedi mynd, a'r angen i ddechrau o'r newydd. Mae llwyddiant, neu fethiant y flwyddyn cynt yn mynd yn angof, a rhaid dechrau o'r dechrau unwaith eto.

Pan ddaw'r amser i edrych nôl ar berfformiad y flwyddyn a fu, ac i gynllunio ar gyfer y

flwyddyn a ddaw, mae'n ofynnol ystyried pwy fydd y cleientiaid a fydd yn ymofyn cymorth cyfreithiol masnachol y flwyddyn nesaf. Mae angen ymchwilio i'r posibiladau busnes sydd ar y gorwel.

Wrth ymgymryd â'r gwaith yma o ystyried fy nghyllideb , nodais yr hyn a ddadansoddir yn "Bwlch Offa" ynglŷn â'r diffyg mawr yng Nghymru o gwmnïoedd mawr PLC, cwmnïoedd a fyddai'n debygol o ddefnyddio cyfreithwyr Cymreig am eu gwaith. O'r hyn yr oeddwn yn gallu ei ganfod, mae 16 yn unig o PLCs sydd â swyddfeydd, neu weithfeydd yng Nghymru. O'r rhain, mae saith yng Nghaerdydd neu Gasnewydd, dau yn Ewlo, un neu ddau yn Abertawe, un yn Sir Fôn, tri arall yn y Gogledd, ac un yng Nghaer - yn bosib tu allan i ffiniau Cymru beth bynnag! Mae adroddiadau blynyddol y PLCs hyn yn awgrymu mai tri yn unig o'r rhain sydd yn cael eu cynrychioli gan gyfreithwyr o Gymru.

Yn ogystal, edrychais ar gwmnïoedd a pherchnogaeth o Ogledd yr Amerig, sydd â phresenoldeb yng Nghymru. Mae tua 220 o'r rhain, yn amrywio yn fawr o ran eu gwaith, ac yn cynnwys cwmnïoedd gwneud ceir yn ogystal â chwmnïoedd sy'n darparu gwasanaethau nyrsio; benthyciadau ar y we; ymchwil cemegau, heb son am drwsio dannedd a dyfeisio cadeiriau olwyn. Ond mi wn fod sawl un o'r 220 yma yn defnyddio cyfreithwyr o Lundain, neu ganolfannau eraill yn Ewrop; fel arfer, y mae dewis y cyfreithiwr yn dibynnu ar bwy sydd yn cynrychioli'r prif gwmni yn ei bencadlys yn Ewrop, lle bynnag y bo, ond y mae'r pencadlys fel arfer y tu allan i Gymru, a'r dewis o gyfreithiwr yn cael ei benderfynu yno. Felly tybiaf mai ychydig o'r cwmnïoedd hyn a fyddai yn debyg o fod yn defnyddio ffyrmiau cyfreithiol Cymreig am eu prif waith.

#### **4 Beth yw'r casgliad?**

Mi ddisgrifiais fy mhreactis personol i ar y dechrau. Wrth gwrs rwy'n gweithredu yng Nghymru ar gyfer cleientiaid Cymreig, ond nid dyma'r achosion na'r cleientiaid sy'n bennaf gyfrifol am i Eversheds gyflogi cymaint o gyfreithwyr, a chyflogi mwy a mwy o flwyddyn i flwyddyn, ac ehangu ein practis, codi safon ein gwaith, a chreu gwaith ac incwm i'r partneriaid ac i'r staff, a thrwy hyn oll gyfrannu at economi Caerdydd a Chymru. Trwy lwc, trwy ddamwain, yr ydwyf wedi dysgu fy nghreffft yng Nghymru, dysgu sgiliau sector cyhoeddus yma, dysgu ymdrin ag achosion o broffil uchel, ac o ganlyniad ehangu'r gorwelion, a gwerthu'r sgiliau hyn tu hwnt i Glawdd Offa, a thrwy hynny, leihau "Bwlch Offa".

## 5 A beth am eraill?

Ond ai eithriad ydw i? A yw cyfreithwyr masnachol eraill yng Nghymru yn llwyddo i fwydo eu hunain ar fwydlen Gymreig yn unig? Go brin. Mi es ati i ymchwilio a dadansoddi ffynhonnell ein hincwm ni yn y ffyrn yn swyddfa Caerdydd.

Darganfyddais fod swyddfa Caerdydd llynedd, wedi ennill ffioedd o tua £54m trwy werthu ein sgiliau i gleientiaid y tu allan i Gymru, lle mai'r unig gysylltiad Cymreig oedd y cyfreithiwr a oedd yn darparu'r gwasanaeth cyfreithiol yn ddyddiol. Dyma fynd ati i hel rhai esiamplau y tu mewn i'r ffyrn.

Un o'r meysydd cyfreithiol mwyaf cynhyrfus ydy maes ynni adnewyddadwy. Mae hyn yn cynnwys pob dim o losgi bio-ynni i bŵer solar, pŵer dŵr, a phŵer gwynt. Mae gen i ddau bartner yng Nghaerdydd sydd ar flaen y gad yn fyd eang ar ran y ffyrn yn y maes hwn. Mae'r ddau wedi dysgu eu sgiliau yng Nghymru, ac mae'r ddau yn dal i fyw yma. Mae'r prif bartner wedi dysgu'r sgiliau yma trwy weithredu ar ran busnes preifat lleol a oedd yn ymwneud â'r maes, cwmni a oedd yn cael ei reoli gan gyfarwyddwyr anturus o Gymru - cwmni a dyfodd yn gwmni sylweddol, wrth brynu cwmni oedd eraill yn rhyngwladol. Trwy weithredu ar eu cyfer tra'n fach, daeth y cleient yn bwysicach, a'r busnes yn fwy ac yn rhyngwladol. Symudodd y ddau brif weithredwr dramor, ac ymgymryd â busnesau eraill dramor. Roedd un ohonynt yn tarddu o'r Barri o'r fro yma. Erbyn hyn, mae'r ddau bartner yma yn Eversheds yn arwain tîm o 45 o gyfreithwyr rhyngwladol yn y maes hwn. Mae 25 ohonynt wedi eu sefydlu yng Nghaerdydd. Maent wedi negodi prosiectau gyda Statkraft o Norwy, y cwmni a ddyfynnir fel esiampl o lwyddiant yn "Bwlch Offa". Esiampl o sgiliau lleol yn cael eu hallforio trwy'r byd.

Ym maes bancio, roedd gan fy hen ffyrn, Phillips & Buck, a ddatblygodd yn Eversheds, gysylltiadau agos â'r sector hwn yn nyddiau cynnar banciau newydd yng Nghymru. Gweithredodd fy mhartneriaid ar ran banciau megis Banc Cymru, cwmni oedd Julian Hodge, Chartered Trust, Banque Nationale de Paris a oedd â swyddfa sylweddol yma, cymdeithas adeiladu'r Principality, ac eraill. Erbyn hyn, mae'r partneriaid yma yn gweithredu ar ran banciau byd eang megis JP Morgan, a brynodd lyfrau morgesi werth £2.2biliwn oddi wrth gwmni Northern Rock, yng ngogledd Lloegr er enghraifft. Maent yn gweithredu dros fanciau rhyngwladol eraill megis Deutsche Bank, yn ogystal â'r banciau cyfarwydd ar y stryd fawr. Cymro o Orllewin Cymru yw pennaeth yr adran - esiampl arall o Gymro yn allforio ei dalent a fathwyd yng Nghymru, a thrwy hynny'n creu tîm sydd yn gydnabyddedig yn genedlaethol. Heb allforio yn y modd hwn, ni fyddai wedi llwyddo i ddatblygu practis o'r fath. Mae fy mhartneriaid yn y gwaith i gyd yn rhannu fy ngweledigaeth am

ddatblygu ein practis, a hynny tu hwnt i Glawdd Offa, ond heb symud o Gymru i wneud hynny.

Ai eithriad yw fy ffyrm i?

Nid fy lle i yw damcaniaethu am aelodau eraill o'r Gymdeithas hon, yn bartneriaid mewn ffyrmiau masnachol eraill yng Nghymru. Ond o'r trafodaethau rwyf wedi eu cael, ac o'r wybodaeth a ddaw yn gyhoeddus trwy'r cyhoeddiadau cenedlaethol, megis *Chambers* a *Legal 500*, ymddengys eu bod hwythau hefyd yn gweld dyfodol tebyg. Mae'r ffyrm Geldards, er enghraifft, yn ffyrm fasnachol arall yng Nghaerdydd sydd, fel pob ffyrm fasnachol arall yn y cyffiniau wedi ei meithrin yn rhannol ar waith sector cyhoeddus. Roedd Geldards hwythau yn gweithredu dros gwmni Cymreig a ddatblygodd yn gyflym, ac agor pencadlys newydd yng nghanolbarth Lloegr. Trwy'r cleient hwn, mae'r ffyrm i'w weld wedi datblygu sgiliau newydd ym maes cyfleustodau - ac eraill - o ganlyniad, ac yn weithgar iawn yng nghanolbarth Lloegr yn ogystal â Chymru. Mae Morgan Cole hwythau wedi gweithredu yn eang yn y maes iechyd a sectorau cyhoeddus eraill, ac yn allforio'r talentau yma y tu hwnt i Gymru, a gweithredu mewn achosion pwysig megis achos Dianne Blood a gafodd sylw cenedlaethol yn ddiweddar.

Cefais sgwrs hefyd gyda phartner yn Hugh James, ffyrm yr oeddwn i'n ei adnabod ers talwm fel ffyrm a oedd yn darparu gwasanaethau dros gleientiaid preifat yn nyffrynnoedd Cymru, i raddau helaeth. Ond o'r gwaith anafiadau personol yma, y mae hwythau wedi datblygu elfen sylweddol o'u practis trwy weithredu mewn achosion prawf - neu *class actions* - ar gyfer grwpiau o gyn-chwarelwyr neu lowyr, gan ddatblygu hyn i weithredu mewn achosion prawf ar gyfer sawl sydd wedi derbyn anafiadau mewn damweiniau awyrennau tramor. Clywais eu bod ar hyn o bryd yn gweithredu ar ran nifer o'r rhai a dderbyniodd fewnblaniadau bron gwael, a chymalau ffug diffygiol; practis arall sydd wedi datblygu talentau a ddysgwyd yn lleol ar gyfer maes a chleientiaid ehangach. Mae'r gwaith yma ar lefel genedlaethol. Ac mae nifer o enghreifftiau o ffyrmiau eraill yn ehangu yn yr un modd, neu sydd yn ystyried gwneud hynny. Dyma felly yw'r dyfodol.

Wrth gwrs, nid yw ffyrmiau cefn gwlad mewn sefyllfa i fuddsoddi mewn anturiaethau tebyg; mae rôl y cyfreithwyr hyn, i mi beth bynnag, yn sialens aruthrol mewn byd arbenigol, yn cynnig darpariaeth gyflawn i'w cleientiaid lleol. Ond trwy ymateb i'r sialens hynny, gwelwn sawl cyfreithiwr, o'r Barri i Fangor, yn amlygu eu hunain trwy eu gwaith, ac yn aml yn cael cydnabyddiaeth bersonol am hynny trwy gael eu penodi i'r fainc, neu fel ynadon cyflogedig, neu trwy gymryd rhan mewn tribiwnlysoedd -



enghreifftiau gwahanol, os yn bersonol, o gyfreithwyr yn ehangu eu gorfelion hwy.

## 6 Y dyfodol

Dros y blynyddoedd, rydym wedi gweld rhai o'n barnwyr amlycaf yn eistedd yn llysoedd uchaf ein gwlad, ac yn dod â chlod i Gymru trwy eu gwaith hwythau. Mae rhai o'n bargyfreithwyr hefyd yn symud i Lundain i ehangu eu practis, yn aml wedi derbyn yr anrhydedd o dderbyn *silk*. Ac, heb amheuaeth, rydym wedi colli sawl un amlwg o rengoedd y cyfreithwyr sydd wedi codi pac, a mynd i weithio y tu hwnt i ffiniau Cymru.

Ond nid felly mae'n rhaid iddi fod. Rwyf wedi cyflwyno peth tystiolaeth i brofi hynny heddiw. Y mae'r cyfreithwyr sydd yn gyfrifol am greu £54m o incwm i mewn i'n swyddfa yng Nghaerdydd i gyd yn byw a bod yng Nghaerdydd, er bod eu cleientiaid wedi eu gwasgaru ar hyd a lled Lloegr, Ewrop a thu hwnt. Does dim amheuaeth fod cyfran sylweddol iawn o'n hincwm ni yn swyddfa Caerdydd yn deillio o allforio eu talent. Mae'n wir amdanaf i yn bersonol, ac rwyf yn sicr ei bod yn wir ar ran eraill sydd yn rhannu'r farchnad gyfreithiol Gymreig. Trwy hap, trwy ddamwain, trwy strategaeth fwriadol neu beidio, y mae cyfreithwyr masnachol Cymru wedi neidio Clawdd Offa, a llenwi'r bwlch. Ac maent wedi gwneud hynny yn llwyddiannus.

Ond fel yr awgrymais, y mae ffactorau penodol wedi bod yna i'n galluogi i fanteisio ar y cyfle. Mae sawl un ohonom wedi ein haddysgu ym mhrifysgolion Cymru. Mae'n holl bwysig canfod talent yna y gellir ei lywio yn y lle cyntaf, a'i allforio maes o law. Mae sgiliau ieithyddol yn ogystal â dealltwriaeth o gyfundrefnau cyfreithiol tramor yn rhan bwysig o ddatblygiad ein cyfreithwyr ifainc. Mae'n holl bwysig hefyd ein bod yn denu ein cyfreithwyr ifainc i aros yng Nghymru, trwy gwrdd â'u hanghenion i ddarparu hyfforddiant o'r radd flaenaf yma, yng Nghymru. Rydw i'n gofidio o weld cymaint o'n graddedigion cyfraith talentog yn gadael prifysgolion gyda graddau da, gyda hyder a brwdfrydedd, ond yn methu â sicrhau cytundeb hyfforddiant yng Nghymru. Mae cytundebau hyfforddi yn mynd yn fwy a mwy prin ac yn anoddach i'w sicrhau. Rydym felly yn colli talent ifanc ar y cam cyntaf oherwydd diffyg cytundebau hyfforddi.

Ond o dderbyn ein bod yn llwyddo i gynnal a chadw'r dalent yma yng Nghymru, mae'n angenrheidiol ar gyfer y cam nesaf eu bod yn meithrin eu sgiliau yma yng Nghymru. Rhaid cael economi sydd yn fyrlymus, gyda chleientiaid anturus sydd yn rhannu'n huchelgais i ehangu a datblygu ar gyfer hynny. Mae adroddiad "Bwlch Offa"

yn dynodi'r golled o ddi-ddymu Awdurdod Datblygu Cymru, ac mae'r adroddiad hwnnw yn argymhell ailsefydlu corff tebyg o'r newydd er mwyn hybu a llywio busnesau. Rwyf innau yn gweld colled ar ôl diddymiad y corff hwnnw; corff a oedd yn anturus, yn fodlon cymryd penderfyniadau cadarn, a thrwy hynny arwain y ffordd. Roedd corff o'r fath yn gallu cyfiawnhau mentro, a thrwy hynny, ennyn enw da, nid yn unig trwy Gymru a Phrydain ond ledled y byd.

Rhaid cofio hefyd fod llawer ohonom yn y maes cyfreithiol wedi llwyddo i farchnata ein hunain yn y sector cyhoeddus Prydeinig gan ein bod wedi ein trwytho yn y sector cyhoeddus Cymreig. Mae gen i un partner a ddaeth yn arbenigwraig yng Nghymru yn y pwnc llosg - cymorth gwladwriaethol. Trwy feddu ar ei gwybodaeth, datblygodd yn arbenigwraig ar y testun i'n cleientiaid Prydeinig oll. Trwy hynny, mae hi wedi llwyddo i adeiladu tîm sylweddol o gyfreithwyr sydd hefyd yn arbenigwyr yn y maes yn yr un modd. Maent hwythau, erbyn hyn, yn allforio eu talent y tu hwnt i Gymru.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i ddatblygiad yr economi gyfreithiol i'w weld mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn y Gazette fis Mehefin eleni. Mae Llywodraeth Cymru yn arwain ymgyrch i annog ffyrniau mawr o gyfreithwyr Llundain i allforio eu gwaith hwythau i Gymru lle nad yw'n gwneud synnwyr iddynt wneud y gwaith yn Llundain, lle mae costau cynhyrchu'r gwaith yn uchel. Rydym wedi gweld esiamplau o ffyrniau Llundain yn allforio sectorau o'u gwaith yn barod i ardaloedd cost isel, megis Belfast. Ond ai mewnforio gwaith o'r math yma yw'r ateb i sicrhau datblygiad a thwf y genhedlaeth nesaf o aelodau'r Gymdeithas hon yn y dyfodol? Oes, mae lle i waith o'r fath, a pham peidio â'i gyflawni yng Nghymru? Mae sawl ffyrm lwyddiannus yng Nghymru eisoes yn darparu gwasanaeth o'r fath. Ond ai hyn a fydd yn cadw ein cyfreithwyr gorau, allforwyr y dyfodol, yma?

Ac ai polisi Llywodraeth Cymru o greu adran gyfreithiol enfawr sydd yn cyfyngu eu sgiliau o fewn muriau'r adran gyfreithiol yn y Llywodraeth yw'r ffordd ymlaen? Dan gyfundrefn o'r fath, ni fyddai fy mhartner sydd yn arbenigo mewn gwaith cymorth gwladwriaethol wedi cael y cyfle i ddatblygu ei sgiliau, a'u hallforio wedyn. Byddwn innau wedi ei chael yn anoddach i ddatblygu fy sgiliau i ym maes ymchwiliadau cyhoeddus hefyd. Trwy ganoli gwaith o fewn un adran gyfreithiol fawr yn y Llywodraeth, efallai bod y Llywodraeth wedi arbed arian yn y tymor byr, trwy osgoi cyflogi cyfreithwyr allanol, ond trwy hynny, mae yna genhedlaeth o gyfreithwyr ifainc yn cael ei hamddifadu o'r gwaith a'r profiad. Pwy yn y dyfodol a fydd yn datblygu swyddfa gyfreithiol yng Nghaerdydd, neu Abertawe, yn cyflogi cannoedd o weithwyr ar sail gwaith safonol a diddorol sydd yn dod o'r tu allan i Gymru? A ydy polisi presennol y Llywodraeth o ganoli gwaith, ac o hybu mewnforio, yn hyrwyddo allforio

ar gyfer y dyfodol?

Hyderaf y bydd aelodau'r Gymdeithas hon yn parhau i fynd o nerth i nerth. Mae yna broblemau i'w goresgyn; ac ychydig o ystyriaeth sydd, yn fy marn i, yn cael ei roi i'r problemau hyn. Mae angen i ni fel cyfreithwyr sicrhau ein bod yn gwneud ein rhan i gau "Bwlch Offa". I raddau helaeth, mae angen i ni ehangu ein gorwelion, magu hyder, ac ymateb i'r her. Fel y mae ein Cadeirydd heddiw wedi dweud wrthyf i sawl gwaith dros y blynyddoedd, "os wyt ti'n gallu ei wneud o, mae unrhyw ffŵl yn gallu"!